# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## ADRODDIAD I’R PWYLLGOR DEDDFAU

## Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Ieithoedd Tramor Modern) (Cymru) 2000

**<u>Y cefndir</u>**

Mae adran 354 o Ddeddf Addysg 1996 yn pennu’r pynciau sydd i fod yn bynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae adran 354(6) yn cynnwys per (sydd bellach wedi’i freinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru) ar gyfer diwygio is-adrannau (1)-(5) o adran 354 drwy gyfrwng Gorchymyn.

Mae Gorchymyn o dan adran 354(6) yn cael ei wneud gan y Cynulliad er mwyn diwygio adran 354(1)-(5) fel a ganlyn –

(a) ar hyn o bryd, dim ond os yw wedi’i phennu mewn Gorchymyn a wnaed gan y Cynulliad Cenedlaethol y bydd iaith dramor fodern yn bwnc sylfaen;

(b) mae hyn yn cael ei ehangu er mwyn i Orchymyn amgen a gâi ei wneud gan y Cynulliad ddarparu bod unrhyw iaith dramor fodern yn bwnc sylfaen;

(c) erbyn hyn, mae’r per i wneud Gorchmynion hefyd yn caniatáu cynnwys darpariaeth i bennu amgylchiadau lle nad yw iaith i gael ei thrin fel pwnc sylfaen ac i ddarparu ar gyfer penderfynu ar gwestiynau ynghylch a yw iaith benodol yn iaith dramor fodern neu beidio.

Mae’r Gorchymyn sy’n cael ei ystyried ar hyn o bryd i’w wneud o dan yr adran 354 ddiwygiedig. Mae’n darparu fel a ganlyn –

(a) mae unrhyw iaith fodern i fod yn bwnc sylfaen, ac eithrio na fydd iaith nad yw yn un o ieithoedd swyddogol y Gymuned Ewropeaidd (y GE) yn bwnc sylfaen oni bai bod yr ysgol lle mae’n cael ei haddysgu yn cynnig astudiaethau mewn un neu fwy o ieithoedd swyddogol y GE;

(b) cynhwysir darpariaeth ar gyfer penderfynu ar gwestiynau sy’n codi ynghylch a yw iaith dramor benodol yn iaith dramor fodern.

**<u>Rheol Sefydlog 11.5</u>**
Gan eu bod wedi cael cyfle i gyflwyno sylwadau ar ddrafft cynnar o'r Gorchymyn hwn, llwyddodd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor i dynnu sylw at nifer o fân bwyntiau sydd wedi'u cymryd i ystyriaeth yn y drafft presennol. Gan hynny, nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**<u>Sylwadau Cyffredinol</u>**

**<u>Y troednodiadau</u>**
Bydd angen gosod y troednodiadau mewn dwy golofn yn y copi printiedig.

Mae rhifau OS i'w nodi yn nhroednodyn **(a)** ar dudalen cyntaf yr OS. Mae'n bosibl na fydd yr wybodaeth hon ar gael nes bod y Gorchymyn presennol yn barod i'w argraffu.

**J H TURNBULL**
**Cynghorydd Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfau**

**Cyf: LAD 01-01-033**
**19 Mai 2000**